

# Geirfa termau iechyd

Mawrth 2018

## Cyflwyniad

Mae'r eirfa hon yn rhoi crynodeb o sefydliadau a thermau cyffredinol a ddefnyddir yn y sector iechyd yng Nghymru. Nid yw'r eirfa hon yn hollgynhwysfawr, ond mae'n darparu rhai o'r geiriau a'r ymadroddion mwyaf cyffredin a ddefnyddir.

### 0-9

#### 111

Mae 111 y GIG yn llinell gymorth feddygol ar gyfer achosion nad ydynt yn rhai brys sydd am ddim ac ar gael 24 awr y dydd, i'w defnyddio ar gyfer gwybodaeth a chynghor am iechyd a mynediad i ofal brys. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth ar gael yn Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr a Sir Gaerfyrddin, ond rhagwelir y caiff y gwasanaeth ei gyflwyno'n raddol ar draws Cymru erbyn 2021.

### A

#### Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn adolygiad annibynnol o ddyfodol gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru, a gynhelir gan banel rhyngwladol o arbenigwyr. Cyflwynodd y panel adroddiad interim yn ystod Haf 2017, a chyhoeddwyd adroddiad terfynol ym mis Ionawr 2018.

#### Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AGIC)

Cyhoeddwyd AGIC ym mis Gorffennaf 2017 a bydd yn dechrau cyflwyno ei raglen yn 2018. Bydd HEIW yn cefnogi datblygiad gweithlu iechyd Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag arweinyddiaeth, cynllunio, addysg a gwelliant.

## **Aelod Annibynnol**

Mae aelod annibynnol yn cyfeirio at rôl Aelodau nad ydynt yn Swyddogion mewn Byrddau Iechyd Lleol a Chyfarwyddwyr Anweithredol mewn Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru. Heb unrhyw bortffolio gweithredol uniongyrchol, mae gan aelodau annibynnol gyfrifoldeb cyfarwyddwr llawn a'r cyfrifoldeb ychwanegol o sicrhau bod y penderfyniadau gorau'n cael eu gwneud trwy ddwyn y gweithredwyr i gyfrif. Mae gan aelodau annibynnol faes neilltuol o ddiddordeb neu ffocws yn aml, ond nid ydynt yn cynrychioli etholaeth benodol, a dylent gymryd rhan weithredol ym mhob agwedd ar sicrwydd a chraffu.

## **Aelodau'r Bwrdd**

Y Bwrdd yw corff corfforaethol y Bwrdd Iechyd neu'r Ymddiriedolaeth sy'n gwneud penderfyniadau. Ei rôl yw gosod y cyfeiriad strategol; sefydlu a chynnal y fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd, yn cynnwys gwerthoedd a safonau ymddygiad; a sicrhau bod ei nodau a'i amcanion yn cael eu cyflawni trwy herio effeithiol a chraffu ar berfformiad ar draws pob maes gweithgaredd. Mae aelodaeth o'r Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, aelodau sy'n swyddogion (a elwir yn Gyfarwyddwyr Gweithredol), ac aelodau nad ydynt yn swyddogion (gyda'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd a elwir yn Aelodau Annibynnol) ac aelodau Cyswllt (nad ydynt yn pleidleisio).

## **Agenda dros Newid (AdN)**

Yr AdN yw'r system raddio a thalu bresennol ar gyfer holl staff y GIG, ac eithrio meddygon, deintyddion a rhai uwch reolwyr.

## **Ailgyflunio**

Ailgyflunio yw aildrefnu gwasanaethau neu gyfleusterau i gael y gost a'r budd clinigol a'r budd mwyaf i gleifion.

## **Anghydraddoldebau iechyd**

Anghydraddoldebau iechyd yw'r gwahaniaethau yng nghyflwr neu statws unigolion neu grwpiau. Gellir mesur y rhain mewn ffyrdd amrywiol fel grŵp economaidd-gymdeithasol, rhyw, ethnigrwydd neu leoliad daearyddol.

## **Archwiliad Clinigol**

Mae archwiliad clinigol yn ddadansoddiad systematig, beirniadol o ansawdd gofal claf, yn cynnwys y gweithdrefnau a ddefnyddir i roi diagnosis a thriniaeth, y defnydd o adnoddau a'r canlyniad ac ansawdd bywyd i'r claf.

## **Archwiliad Hanfodion Gofal Cymru Gyfan**

Mae Archwiliad Hanfodion Gofal Cymru Gyfan yn grynodedb o gydymffurfiaid sefydliadau'r GIG â safonau Hanfodion Gofal yn seiliedig ar archwiliadau blynyddol. Nod rhaglen archwilio Hanfodion Gofal yw gwella agweddau ansawdd iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer oedolion. Mae'n cynnwys 12 safon yn ymwneud ag elfennau hanfodol gofal.

## **Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

AGC yw rheoleiddiwr gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, o ofalwyr plant a meithrinfeydd i gartrefi ar gyfer pobl hŷn. Mae'n gyfrifol am arolygu gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ar gyfer y bobl sydd eu hangen.

## **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)**

AGIC yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru.

## **Asesu Iechyd Poblogaeth (AIP)**

Mae AIP yn ymwneud â deall iechyd cymunedau neu boblogaethau penodol, yn ogystal â'r ffactorau sydd yn sylfaen i iechyd da neu'n cyflwyno peryglon posibl, i lywio polisïau a gwasanaethau arloesol.

## **Atgyfeirio am Driniaeth (AaD)**

AaD yw'r cyfnod o amser rhwng atgyfeirio gan feddyg teulu neu ymarferydd meddygol arall i'r ysbyty am driniaeth yn y GIG yng Nghymru. Mae llwybr RTT yn cynnwys yr amser a arhoswyd am unrhyw apwyntiadau ysbyty, profion, sganiau neu driniaethau eraill y gall fod eu hangen cyn cael triniaeth.

## **Atwrneiaeth**

Mae Atwrneiaeth yn ddogfen gyfreithiol sydd yn galluogi rhywun i reoli materion person arall, neu elfennau penodol o'u materion ar eu rhan.

## **B**

### **Blwyddyn Fywyd a Addaswyd yn ôl Ansawdd (BFAA)**

Mae BFAA yn mesur cyflwr iechyd person neu grŵp, lle mae'r buddion, o ran hyd bywyd, yn cael eu haddasu i adlewyrchu ansawdd bywyd. Mae un BFAA yn gyfwerth â blwyddyn o fywyd ag iechyd perffaith.

## **Brechlynnau**

Mae brechlyn yn baratoad biolegol sydd yn rhoi imiwnedd rhag clefyd penodol.

## **Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru (WESB)**

Mae WESB yn fwrdd cynghori annibynnol o dan arweiniad cyflogwyr ar gyfer Llywodraeth Cymru ar bob mater yn ymwneud â pholisi cyflogaeth a sgiliau ôl-16 er mwyn sicrhau bod yr hyn sy'n cael ei gyflwyno'n cyd-fynd yn well ag anghenion cyflogwyr ac unigolion ar draws Cymru.

## **Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus (BGCau)**

Cyflwynodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 BGCau ar gyfer pob Awdurdod Lleol yng Nghymru. Mae'n rhaid i bob BGC wella llesiant economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal trwy gyflawni nodau llesiant. Eu nod hefyd yw lleihau dyblygu a symleiddio nifer y cynlluniau a'r strategaethau sydd angen i Awdurdodau Lleol a'u partneriaid eu creu.

## **Byrddau Iechyd (Blau)**

Mae Blau (a elwir yn Fyrddau Iechyd Lleol yn swyddogol) yn gyrff GIG sy'n gyfrifol am iechyd y boblogaeth yn eu hardal ddaearyddol. Maent yn gyfrifol am gynllunio, dylunio, datblygu a sicrhau cyflwyno gwasanaethau sylfaenol, cymunedol, gofal mewn ysbytai a gwasanaethau arbenigol. Mae saith BI yng Nghymru.

## **Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPR)**

Mae BPR yn ofynnol yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Bydd yr BPR yn darparu llywodraethu ffurfiol ar gyfer goruchwylio trefniadau partneriaeth ar gyfer integreiddio gwasanaethau yn y dyfodol, gan ddefnyddio cronfeydd ar y cyd neu arwain trefniadau comisiynu, fel y bo'n briodol.

## C

### **Cais Unigol gan Glaf am Gyllid (IPFR)**

Mae IPFR yn ymholiadau i Fyrddau Iechyd Lleol am driniaeth a meddyginiaethau sydd y tu hwnt i'r ystod a ariennir fel arfer sydd ar gael yn GIG Cymru. Mae'r ceisiadau sydd yn gymwys i gael eu hystyried ymhellach yn cael eu rhoi gerbron cyfarfod o'r Panel IPFR lleol, sydd yn cynnwys Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, Cyfarwyddwr Meddygol, Cyfarwyddwr Therapiau a'r Gwyddorau Clinigol, a chynrychiolydd lleyg a enwebir gan y Cyngor Iechyd Cymuned.

### **Canolfannau Trawma Sylweddol**

Mae Canolfannau Trawma Sylweddol yn darparu gofal arbenigol i gleifion ag anafiadau difrifol lluosog a allai arwain at farwolaeth neu anabledd difrifol, yn cynnwys anafiadau i'r pen, clwyfau sy'n rhoi bywyd yn y fantol a thoriadau lluosog.

### **Claf Allanol**

Mae claf allanol yn glaf sy'n mynychu ysbyty neu glinig am driniaeth lle nad oes angen aros dros nos.

### **Clymblaid Cavendish**

Mae Clymblaid Cavendish yn grŵp o 36 o sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gweithredu fel llais a rennir yn ystod trafodaethau Brexit ar faterion sy'n effeithio ar y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Mae Confederasiwn GIG Cymru yn aelod.

### **Cofnod Electronig Claf (EPR)**

Mae EPR yn ffordd systemataidd o gasglu gwybodaeth iechyd cleifion a phoblogaeth sydd wedi ei storio'n electronig ar ffurf ddiigidol. Gellir rhannu'r cofnodion hyn ar draws lleoliadau gofal iechyd gwahanol.

### **Comisiynu**

Comisiynu yw prynu gwasanaethau'r GIG i fodloni anghenion iechyd poblogaeth leol. Mae Byrddau Iechyd Lleol yn gweithredu fel comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau'r GIG yng Nghymru. Yn Lloegr, mae model y farchnad yn ei wneud yn ofynnol i wahanu cyfrifoldeb dros gomisiynu a darparu gwasanaethau.

### **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol**

Rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yw amlygu'r prif heriau, a'r rhwystrau i fynd i'r afael â nhw, y mae cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru'n eu hwynebu. Mae gan y Comisiynydd hefyd gyfrifoldeb dros herio a chefnogi cyrff cyhoeddus yng Nghymru i ystyried effeithiau hirdymor eu penderfyniadau. Deiliad y swydd ar hyn o bryd yw Sophie Howe.

### **Comisiynydd Plant Cymru**

Y Comisiynydd Plant yw llais cenedlaethol plant a phobl ifanc yng Nghymru. Ei rôl yw dylanwadu ar Lywodraeth Cymru ar bolisïau sy'n effeithio ar wasanaethau plant yn GIG Cymru a sefyll dros hawliau plant a phobl ifanc. Deiliad y swydd ar hyn o bryd yw Sally Holland.

### **Comisiynydd Pobl Hŷn**

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais annibynnol ac yn hyrwyddwr pobl hŷn ar draws Cymru, gan sefyll dros a siarad ar eu rhan. Deiliad y swydd ar hyn o bryd yw Sarah Rochira.

## **Contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMC)**

Contract y GMC yw'r contract rhwng ymarfer cyffredinol a'r GIG ar gyfer cyflwyno gwasanaethau gofal sylfaenol i gymunedau lleol. Mae'n contract sy'n cael ei drafod yn genedlaethol sydd yn nodi'r ystod graidd o wasanaethau a ddarperir gan feddygon teulu (GP), eu staff a thariff cenedlaethol.

## **Cronfa Gofal Integredig**

Mae'r Gronfa Gofal Integredig yn cynnwys gweithio integredig rhwng staff y GIG a gofal cymdeithasol i gefnogi pobl hŷn ac agored i niwed. Y nod cyffredinol yw helpu pobl i gynnal eu hannibyniaeth, atal derbyniadau diangen i'r ysbyty a galluogi cleifion i gael eu rhyddhau'n gynnar o'r ysbyty.

## **Cronfa Technoleg Gofal Iechyd a Theleofal (CTGIT)**

Mae'r CTGIT yn darparu buddsoddiad cyfalaf i nifer o brosiectau teleofal a chymunedol arloesol i wella tegwch mynediad ar draws Cymru.

## **Cyd-forbidrwydd**

Cyd-forbidrwydd yw presenoldeb dau gyflwr iechyd neu glefydau ar y cyd yn yr un claf.

## **Cydgynhyrchu**

Cydgynhyrchu yw ymagwedd tuag at wasanaethau cyhoeddus sydd yn cynnwys dinasyddion, cymunedau, a'r gweithwyr proffesiynol sy'n eu cefnogi gan gyfuno eu harbenigedd i ddylunio a chyflwyno gwasanaethau mwy effeithiol a chynaliadwy a phrofiad gwell ar gyfer pawb sydd yn gysylltiedig. Wrth gydgyhyrchu, mae gan ddinasyddion a chleifion hawliau a chyfrifoldebau fel partneriaid cyfartal.

## **Cydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru**

Mae Cydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru yn rhaglen sy'n cefnogi cydgyllunio a rheoli rhaglenni gwasanaethau'r GIG ar draws ffiniau Byrddau Iechyd.

## **Cyflogwyr GIG Cymru**

Mae Cyflogwyr GIG Cymru yn cefnogi agenda gweithlu strategol y GIG yng Nghymru o safbwynt cyflogwyr y GIG trwy ddatblygiad polisi'r gweithlu, cyngor ymarferol a gwybodaeth. Cynhelir Cyflogwyr GIG Cymru gan, a chaiff ei weithredu fel rhan o, Gonffederasiwn GIG Cymru.

## **Cyflyrau Hirdymor (CHD)**

Mae CHD yn gyflyrau na ellir eu gwella ond y gellir eu rheoli gan feddyginiaeth a therapïau eraill.

## **Cyfradd Marwolaethau**

Cyfradd marwolaethau yw cyfradd y marwolaethau gwirioneddol i'r marwolaethau a ddisgwylir.

## **Cyfraddau Derbyn**

Cyfraddau derbyn yw nifer yr achosion o salwch neu glefydau penodol sy'n cael eu trin mewn ysbytai, mewn perthynas â phoblogaeth ardal ddaearyddol.

## **Cyllidebau wedi eu Cronni**

Mae cyllideb wedi ei chronni yn gronfa ar wahân a sefydlwyd gan sefydliadau partner i gyflawni nodau a chanlyniadau a rennir. Mae'r nodau a'r canlyniadau a rennir wedi eu nodi mewn cytundeb partneriaeth waeth beth yw lefel y cyfraniad y mae pob partner yn ymrwymo iddo. Gyda threfniant cyllideb wedi ei chronni, mae'r GIG ac Awdurdodau Lleol yn gallu cronni adnoddau, a galluogi swyddogaethau i gael eu dirprwyo i bartner arwain.

## **Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (CCGC) Cymru**

Fel sefydliad arwain cenedlaethol ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, rôl ADSS Cymru yw cynrychioli llais awdurdodol, ar y cyd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, Penaethiaid Gwasanaethau Oedolion, Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Busnes, ynghyd â gweithwyr proffesiynol sy'n cefnogi plant ac oedolion agored i niwed, a'u teuluoedd.

## **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)**

Mae CLILC yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol ac yn hyrwyddo democratiaeth leol yng Nghymru. Ei phrif ddibenion yw hybu llywodraeth leol well, hybu ei henw da a chefnogi awdurdodau i ddatblygu polisiau a blaenoriaethau fydd yn gwella gwasanaethau cyhoeddus a democratiaeth.

## **Cynghorau Iechyd Cymuned (CICau)**

Mae CICau yn gyrff annibynnol, wedi eu sefydlu yn unol â'r gyfraith, sydd yn gwranddo ar yr hyn sydd gan unigolion a'r gymuned i'w ddweud am wasanaethau iechyd o ran ansawdd, maint, mynediad a phriodolrwydd y gwasanaethau a ddarperir. Maent yn gweithredu fel llais y cyhoedd i hysbysu rheolwyr gwasanaethau iechyd am yr hyn y mae pobl ei eisiau a sut y gellir gwella pethau. Yn eu tro, mae CICau hefyd yn ymgynghori â'r cyhoedd yn uniongyrchol am rai materion er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu safbwyntiau'r cyhoedd yn gywir i'r Bwrdd Iechyd, yr Ymddiriedolaeth neu Lywodraeth Cymru.

## **Cynghrair Iechyd Brexit (CIB)**

Gan ddod â'r GIG, ymchwil feddygol, diwydiant, cleifion a sefydliadau iechyd y cyhoedd ynghyd, nod y BHA yw diogelu buddiannau cleifion a'r ymchwil gofal iechyd y maent yn dibynnu arni yn ystod trafodaethau Brexit. Mae Conffederasiwn GIG Cymru yn aelod.

## **Cyngor Meddygol Cyffredinol (CMC)**

Mae'r GMC yn ceisio amddiffyn, hybu a chynnal iechyd a diogelwch y cyhoedd trwy sicrhau safonau cywir wrth ymarfer meddygaeth. Lleolir swyddfa ranbarthol Cymru y GMC yng Nghaerdydd.

## **Cynllun Cydraddoldeb Sengl**

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl yn ei hanfod yn strategaeth ac yn gynllun gweithredu sydd yn nodi ymrwymiad ac ymagwedd y sefydliadau i bob math o gydraddoldeb a hawliau dynol.

## **Cynllun Gofal Personol**

Cynllun a ddatblygwyd gan y claf a'u gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sydd yn cynnwys gwybodaeth am iechyd, ffordd o fyw ac opsiynau triniaeth neu ofal yr unigolyn, gyda'r nod o roi mwy o berchnogaeth a chyfrifoldeb i gleifion reoli eu gofal.

## **Cynlluniau Gofal (gofal cymdeithasol / cyflyrau hirdymor)**

Mae cynlluniau gofal yn dod â'r holl wybodaeth am yr unigolyn ynghyd mewn un cynllun gofal unigol, trosfwaol sy'n cael ei greu gan iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol. Gall fod yn ddogfen ysgrifenedig neu'n un electronig (e.e. fel cynllun gofal electronig neu wedi ei gofnodi yn nodiadau'r claf), ac mae'n hygyrch i'r claf a'r holl ofalwyr, yn cynnwys gwasanaethau gofal argyfwng / brys. Dylai cynlluniau gofal ganolbwyntio ar ddyheadau'r claf.

## **Cynlluniau'r Gaeaf**

Cynhyrchir cynlluniau'r gaeaf gan Fyrddau Iechyd Lleol i nodi sut bydd y sefydliad yn mynd i'r afael â'r galw cynyddol yn ystod misoedd y gaeaf. Caiff y cynlluniau hyn eu datblygu mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwylans Cymru ac Awdurdodau Lleol.

## **Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw**

Mae cynllunio gofal ymlaen llaw yn broses wirfoddol o drafod gofal yn y dyfodol rhwng unigolyn a'u darparwyr gofal, waeth beth fo'r ddisgyblaeth. Argymhellir, gyda chytundeb yr unigolyn, bod y drafodaeth yn cael ei chofnodi, ei hadolygu'n rheolaidd, ei diweddarau, a'i chyfleu i bobl allweddol sydd yn gysylltiedig â'u gofal.

## **Cynllun Integredig Sengl**

Mae'r Cynllun Integredig Sengl yn ymgysylltu ystod o sectorau i fynd i'r afael â phroblemau lleol yn yr ardal leol, yn cynnwys anghydraddoldebau iechyd.

## **Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG)**

Mae CLG yn ddogfen sydd yn nodi cytundeb rhwng dau barti neu fwy, yn disgrifio disgwyliadau a gofynion pob parti.

## **D**

### **Datganiad Ansawdd Blynyddol (AQS)**

Mae pob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth yn cyhoeddi AQS, sydd at ddibenion gwybodaeth y cyhoedd yn bennaf. Mae'n gyfle i'r sefydliad adael i'w boblogaeth leol wybod sut mae'n dod ymlaen er mwyn sicrhau bod ei holl wasanaethau yn bodloni'r angen lleol ac yn cyrraedd safonau uchel. Cyhoeddir AQS gan GIG Cymru hefyd.

### **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) i rym ar 6 Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth ac mae'n newid y ffordd y caiff anghenion pobl eu hasesu a'r ffordd y caiff gwasanaethau eu cyflwyno.

### **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol statudol ar gyfer Cymru.

## **Dewis Doeth**

Mae Dewis Doeth yn darparu offer i helpu'r cyhoedd i benderfynu a oes angen sylw meddygol arnynt os ydynt yn sâl. Mae'n esbonio beth mae pob gwasanaeth GIG yn ei ddarparu, a phryd y dylid ei ddefnyddio. Mae'n galluogi gwasanaethau'r GIG i helpu'r bobl sydd eu hangen fwyaf.

## **Dewis Fferyllfa**

Mae Dewis Fferyllfa yn galluogi Fferyllfeydd Cymunedol achrededig a Fferyllfeydd Cymunedol i ymgynghori a rhoi triniaeth ar gyfer rhestr wedi ei diffinio o 26 salwch cyffredin a mynediad i Lythyr Cyngor Rhyddhau electronig wedi ei greu gan Borth Clinigol Cenedlaethol Cymru.

## **E**

### **Egwyddorion Craidd**

Mae Egwyddorion Craidd GIG Cymru yn cefnogi llywodraethu da ac yn helpu i sicrhau bod yr ansawdd uchaf posibl yn cael ei gyflawni ym mhopeth y mae'r GIG yng Nghymru'n ei wneud ac maent yn seiliedig ar yr agenda gofal iechyd darbodus.

## **F**

### **Fforwm Partneriaeth Cymru**

Mae Fforwm Partneriaeth Cymru yn grŵp teiran, a noddir gan Lywodraeth Cymru, sydd yn cynnwys cynrychiolwyr o undebau llafur ar gyfer GIG Cymru, uwch reolaeth a Llywodraeth Cymru. Prif ddiben y Fforwm yw cefnogi datblygu, cefnogi a chyflwyno polisiâu gweithlu ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol.

### **Fforwm Partneriaeth Lleol (FPL)**

Yr FPL yw lle mae Byrddau Iechyd Lleol, undebau llafur a rhanddeiliaid allweddol eraill yn cydweithio i wella gwasanaethau iechyd yn ardal y Bwrdd Iechyd, e.e. blaenoriaethau lleol ar faterion y gweithlu a'r gwasanaeth iechyd.

### **Fforwm Polisi Confederasiwn GIG Cymru**

Mae'r Fforwm Polisi'n dod â thros 50 o sefydliadau ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ynghyd, yn cynnwys y trydydd sector, Colegau Brenhinol, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a sefydliadau gofal cymdeithasol. Mae'r Fforwm yn creu briffiau ar ystod o destunau gofal iechyd.

### **Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau (FfACh)**

Mae'r FfACh yn system wirfoddol o fentrau ariannol ar gyfer meddygfeydd. Mae'n ymwneud â rhoi contractau ar gyfer arfer da (a'i faich gwaith cysylltiedig) trwy gymryd rhan mewn cylch gwella ansawdd blynyddol.

### **Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (FfGC)**

Mae FGC yn strategaethau hirdymor ar gyfer gwella meysydd gofal penodol. Caiff FGC eu gweithredu mewn partneriaeth â gofal cymdeithasol a sefydliadau eraill. Mae chwe FGC yng Nghymru yn cwmpasu clefyd coronaidd y galon, diabetes, iechyd meddwl, arennol, pobl hŷn a phlant.



## **Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau (FfGS)**

FGS yw offeryn sydd wedi ei ddatblygu'n genedlaethol a ddefnyddir i nodi gwybodaeth, sgiliau a datblygiad sydd eu hangen ar staff i wneud eu gwaith. Mae FGS yn canolbwyntio ar chwe dimensiwn craidd yn cwmpasu'r meysydd allweddol sy'n berthnasol i bob swydd.

## **Fy Iechyd Ar-lein**

Mae Fy Iechyd Ar-lein yn rhoi cyfle i gleifion wneud apwyntiadau gyda meddygon teulu, archebu ail bresgripsiwn a diweddaru eu manylion cyffredinol fel newid cyfeiriad, o gyfleustra eu cyfrifiadur. Mae gan y rhan fwyaf o feddygfeydd yng Nghymru'r cyfleuster i gynnig Fy Iechyd Ar-lein i gleifion.

## **Fy Iechyd y Gaeaf Hwn**

Mae Fy Iechyd y Gaeaf Hwn yn rhan o ymgyrch y gaeaf Dewis Doeth ac mae'n ceisio cefnogi pobl sydd yn byw gyda chyflyrau iechyd hirdymor a'u gofalwyr. Cafodd y Cynllun ei lansio ym mis Tachwedd 2017 ac mae'n rhannu gwybodaeth gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymweld â'r cartref am gyflwr claf; y cymorth y maent yn ei dderbyn; y cyngor y maent wedi ei gael; a'u manylion cyswllt cymorth iechyd a gofal allweddol.

## **G**

## **Galw Iechyd Cymru**

Mae Galw Iechyd Cymru yn wasanaeth cyngor a gwybodaeth iechyd sydd ar gael 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Mae Galw Iechyd Cymru yn rhan o Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

## **Gofalwr**

Gofalwr yw rhywun sy'n gofalu am ffrind neu aelod o'r teulu sydd, oherwydd salwch, anabledd, problemau iechyd meddwl neu gaethiwed, yn methu ymdopi heb eu cymorth.

## **Gofal Aciwt**

Mae gofal aciwt yn cyfeirio at y driniaeth feddygol a llawfeddygol a ddarperir gan ysbyty.

## **Gofal Brys**

Gofal brys yw gofal am bobl sydd angen cyngor meddygol, diagnosis a / neu driniaeth yn gyflym ac yn annisgwyl.

## **Gofal Critigol**

Mae gofal critigol yn arbenigedd sydd yn rhoi cymorth i gleifion ag anafiadau a salwch aciwt sydd yn rhoi bywyd yn y fantol.

## **Gofal Cymdeithasol**

Gofal cymdeithasol yw darpariaeth gwaith cymdeithasol, gofal personol, gwasanaethau diogelu neu gymorth cymdeithasol i blant neu oedolion sydd mewn angen neu mewn perygl, neu oedolion ag anghenion sydd yn deillio o salwch, anabledd, henaint neu dlodi.

## **Gofal Cymdeithasol Cymru**

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru'n ceisio gwella ansawdd y gofal a'r cymorth y dylai pobl ei ddisgwyl gan GIG Cymru. Gweledigaeth graidd Gofal Cymdeithasol Cymru yw creu cymdeithas lle gall pob person sydd yn cael cymorth fyw'r bywyd sydd yn bwysig iddyn nhw.

## Gofal Eilaidd

Gofal eilaidd yw'r gwasanaeth gofal iechyd a ddarperir gan arbenigwyr meddygol a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill nad ydynt fel arfer yn cael cyswllt cyntaf gyda chleifion e.e. cardiolegwyr, wrolegwyr a dermatolegwyr.

## Gofal Dewisol

Mae gofal dewisol yn ofal wedi ei gynllunio a'i drefnu ymlaen llaw nad yw'n ofal brys, yn cynnwys llawdriniaethau wedi eu trefnu. Fe'i darperir gan arbenigwyr meddygol a llawfeddygol mewn ysbyty neu leoliad gofal eilaidd arall. Gellir hefyd ei alw'n Ofal wedi ei Drefnu. Mae'n canolbwyntio ar fathau penodol o weithdrefnau llawfeddygol mewnbyn uchel fel amnewid pengliniau, cymalsyllu a llawdriniaethau cataract.

## Gofal Diwedd Oes

Defnyddir Gofal Diwedd Oes i gynnwys gofal uwch a gofal lliniarol mewn lleoliadau gwahanol fel cartrefi gofal, ysbytai, gofal sylfaenol a hosbisau ar gyfer oedolion â salwch datblygedig, cynyddol.

## Gofal Heb ei Drefnu

Gellir diffinio gofal heb ei drefnu fel iechyd a / neu ofal cymdeithasol na ellir ei ragweld na'u gynllunio yn rhesymol cyn y cyswllt â'r gweithiwr proffesiynol perthnasol. Mae gofal heb ei drefnu, yn unol â'i ddiffiniad, yn ofal brys gyda'r angen i weithredu ar adeg y cyswllt gyda'r gwasanaethau.

## Gofal Iechyd Darbodus

Mae gofal iechyd darbodus yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio gofal iechyd sydd yn cyd-fynd ag anghenion ac amgylchiadau cleifion ac mae'n osgoi gofal gwastraffus nad yw o fudd i'r claf. Pedwar egwyddor Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal iechyd darbodus yw:

- Cyflawni iechyd a llesiant gyda'r cyhoedd, cleifion a gweithwyr proffesiynol fel partneriaid cyfartal trwy gydgyhychu;
- Gofalu am y rheiny â'r angen mwyaf o ran iechyd gyntaf a gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r holl sgiliau ac adnoddau;
- Gwneud yr hyn sydd ei angen yn unig (dim mwy, dim llai) a gwneud dim niwed; a
- Lleihau amrywiad amhriodol gan ddefnyddio arferion yn seiliedig ar dystiolaeth yn gyson ac yn dryloyw.

Mae'r egwyddorion hyn yn cyd-fynd â'r syniad ategol o 'wneud yr hyn y gallwch yn unig' – y syniad na ddylai unrhyw weithiwr gofal iechyd proffesiynol ddarparu gofal islaw eu cymhwysedd clinigol fel mater o drefn.

## Gofal Iechyd yn Seiliedig ar Werth

Mae gofal iechyd yn seiliedig ar werth yn ymrwymiad clir i gyflwyno a gweithredu polisïau wedi eu hanelu at gael y gwerth gorau o wasanaethau'r GIG. Mae'r agenda'n ategu egwyddorion craidd y fframwaith gofal iechyd darbodus.

## Gofal Integredig

Mae gofal integredig yn gysyniad sydd yn dod â chyflwyno, rheoli a threfnu gwasanaethau sy'n ymwneud â diagnosis, triniaeth, gofal, adsefydlu a hybu iechyd ynghyd i wella gwasanaethau o ran mynediad, ansawdd, bodlonrwydd defnyddiwr ac effeithlonrwydd. Yn ogystal â chyfeirio at integreiddio mewn gwasanaethau iechyd, gall integreiddio hefyd gyfeirio at y nod o gyflawni gwasanaethau di-dor rhwng iechyd a gofal cymdeithasol.

## **Gofal Lliniarol**

Mae gofal lliniarol yn ymagwedd amlddisgyblaethol i ofal meddygol a nyrsio ar gyfer pobl â salwch sy'n cyfyngu bywyd. Mae'n canolbwyntio ar leddfu'r symptomau, y boen a straen corfforol a meddygol diagnosis terfynol.

## **Gofal Nyrsio wedi ei Ariannu gan y GIG**

Gofal nyrsio wedi ei ariannu gan y GIG yw cyfraniad ariannol y GIG tuag at gost bodloni anghenion gofal trigolion cartrefi nyrsio nad ydynt yn gymwys am ofal iechyd parhaus y GIG, ond sydd wedi cael eu hasesu fel pobl sydd angen gwasanaethau a ddarperir gan nyrs gofrestredig.

## **Gofal sydd yn Canolbwyntio ar y Claf**

Mae gofal sydd yn canolbwyntio ar y claf yn ymagwedd tuag at weithio gyda phobl sydd yn gwneud anghenion a dyheadau'r unigolyn yn ganolog i'r broses. Mae'n cynnwys: parch tuag at werthoedd sy'n canolbwyntio ar y claf, hoffterau, ac anghenion a fynegir; cydlynu ac integreiddio gofal ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol; gwybodaeth, cyfathrebu, ac addysg; cymorth emosiynol; croesawu cyfranogiad teulu a ffrindiau; sylw at drosglwyddo a pharhad; a mynediad at ofal.

## **Gofal Sylfaenol**

Mae gwasanaethau gofal sylfaenol yn darparu'r man gofal cyntaf, ddydd neu nos, ar gyfer dros 90% o'r bobl sy'n cysylltu â'r GIG yng Nghymru. Ymarfer cyffredinol yw elfen greiddiol, ond nid unig elfen gofal sylfaenol – mae gwasanaethau eraill fel rhai fferyllol, deintyddol ac optometreg yn darparu gofal uniongyrchol i'r cyhoedd. Mae cyfraniad gofal sylfaenol hefyd yn ymwneud â chydlynu mynediad ar gyfer pobl i'r ystod eang o wasanaethau yn y gymuned leol er mwyn helpu i fodloni eu hanghenion iechyd a lles.

## **Gofal Trydyddol**

Mae gofal trydyddol ar gyfer pobl sydd angen triniaethau cymhleth, mewn canolfan arbenigol fel arfer. Gellir atgyfeirio pobl i gael gofal trydyddol (er enghraifft, uned strôc arbenigol) naill ai o ofal sylfaenol neu eilaidd.

## **GPOne**

Mae gwefan GPOne yn wefan broffesiynol ar gyfer meddygon teulu sy'n gweithio yng Nghymru. Ei bwriad yw gweithredu fel porth cyfathrebu dwy ffordd a man adnoddau sy'n darparu gwybodaeth amserol, ddibynadwy a pherthnasol ac i rannu sylwadau adeiladol ynghylch materion cyfredol a mentrau mewn Ymarfer Cyffredinol.

## **Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid**

Mae gan yr holl Fyrddau Iechyd yng Nghymru Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid i annog ymgysylltu llawn a thrafodaeth egnïol ymysg rhanddeiliaid ar draws y cymunedau a wasanaethir gan y Bwrdd Iechyd. Trwy wneud hynny, ei nod yw defnyddio safbwyntiau cytbwys ei rhanddeiliaid i lywio'r broses o wneud penderfyniadau.

## **Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru (GSMC)**

Sefydlwyd GSMC yn 2002. Prif swyddogaeth y grŵp yw cynghori Llywodraeth Cymru ynghylch datblygiadau mewn gofal iechyd yn y dyfodol a chynorthwyo'r gwaith cynllunio strategol. Mae'r Grŵp hefyd yn cynghori Llywodraeth Cymru ar ddatblygu a gweithredu strategaeth ragnodi ar gyfer Cymru ac yn datblygu cyngor amserol, annibynnol ac awdurdodol ar feddyginiaethau newydd.

## **Grŵpiau Cymheiriaid Gweithredol**

Mae Grŵpiau Cymheiriaid Gweithredol yn dod â gweithwyr proffesiynol ar lefel Cyfarwyddwr ynghyd o Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau i gyflwyno rhaglen waith Cymru gyfan e.e. Cyfarwyddwyr Meddygol, Cyfarwyddwyr Nyrsio, Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd a Chyfarwyddwyr Cynllunio.

## **Gwaith Cydgysylltiedig**

Mae gwaith cydgysylltiedig yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth ag eraill, naill ai yn y sector cyhoeddus, preifat neu wirfoddol, er mwyn nodi a datrys problemau lleol. Mae'r llywodraeth yn ystyried gwaith cydgysylltiedig yn ffordd o feithrin effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac ymgysylltu cymunedol i wella llywodraeth leol.

## **Gwaith sy'n canolbwyntio ar y person**

Mae gwaith sy'n canolbwyntio ar y person yn cyfeirio at ymagweddau sy'n cydnabod natur unigryw yr unigolion ac yn sefydlu hyn fel sylfaen ar gyfer cynllunio a chyflwyno gofal.

## **Gwarcheidwaid Caldicott**

Mae Gwarcheidwad Caldicott yn berson uwch sy'n gyfrifol am ddiogelu cyfrinachedd gwybodaeth claf a defnyddwyr y gwasanaeth a galluogi gwybodaeth i gael ei rhannu'n briodol. Mae'r Gwarcheidwad yn chwarae rôl allweddol yn sicrhau bod y GIG, cynghorau gyda chyfrifoldebau gwasanaethau cymdeithasol a sefydliadau partner yn cydymffurfio â'r safonau ymarferol uchaf posibl ar gyfer ymdrin â gwybodaeth cleifion.

## **Gwasanaeth Cronfa Risg Cymru**

Mae Gwasanaeth Cronfa Risg Cymru yn sefydliad ar y cyd sydd yn ad-dalu colledion dros £25,000 a gronnir gan gyrrff GIG Cymru yn sgil esgeulustod. Ariennir Gwasanaeth Cronfa Risg Cymru trwy gyllideb Gofal Iechyd GIG Cymru.

## **Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (GGGC)**

Mae gan GGGC rôl genedlaethol i gefnogi GIG Cymru yn gwneud y defnydd gorau o sgiliau ac adnoddau TG. Mae GGGC yn dod â datblygiad strategol Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh), cyflwyno gwasanaethau TGCh gweithredol a rheoli gwybodaeth ynghyd.

## **Gwasanaethau Ailalluogi**

Mae gwasanaethau ailalluogi yn ceisio cynyddu annibyniaeth hirdymor, dewis ac ansawdd bywyd pobl tra, ar yr un pryd, yn ceisio lleihau'r gofyniad am gymorth parhaus.

## **Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol (GCIMSL)**

Mae GCIMSL yn darparu asesiadau cynhwysfawr ac iechyd meddwl ar gyfer y rheiny sydd mewn angen; yn darparu ymyriadau tymor byr ar gyfer cleifion iechyd meddwl; yn rhoi cymorth a chynghor i feddygon teulu a staff gofal sylfaenol eraill; ac yn darparu gwybodaeth, cymorth a chynghor i ofalwyr a gwarcheidwaid.

## **Gwasanaethau Gofal Cymunedol**

Mae gwasanaethau gofal cymunedol yn wasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol lleol a ddarperir i gleifion yn eu cartref ac yn lleol.

## **Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (GIMPG)**

Mae GIMPG yn wasanaethau a ddarperir gan y GIG sydd yn asesu ac yn trin plant a phobl ifanc ag anawsterau meddyliol neu emosiynol.

## **Gwasanaethau Tu Allan i Oriau**

Darperir gwasanaethau y tu allan i oriau y tu hwnt i oriau gwaith 'safonol' e.e. gyda'r nos ac ar benwythnosau.

## **Gwasanaethau'r Gweithlu, Addysg a Datblygu (GGAD)**

Gan weithio ar ran GIG Cymru, Llywodraeth Cymru a darparwyr addysg, mae GGAD yn cynorthwyo'r gwasanaeth i ddatblygu gweithlu gyda'r sgiliau a'r cymwyseddau i fodloni galw gofal iechyd modern. Mae rôl GGAD yn hanfodol i GIG Cymru wrth gyflwyno ei amcanion strategol allweddol ac wrth gynllunio gofynion gweithlu'r dyfodol o ran niferoedd a sgiliau. Mae GGAD hefyd yn gwneud sawl darn o waith strategol ar ran Llywodraeth Cymru a GIG Cymru.

## **Gweithiwr Gofal / gweithiwr cymorth gofal**

Mae gweithiwr gofal, neu weithiwr cymorth gofal, yn rhywun sydd yn gweithio gyda gofalwyr neu'r rheiny ag anghenion gofal.

## **Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (GPPI)**

Mae GPPI yn derm mantell ar gyfer therapyddion, ciropodyddion, deietegwyr, therapyddion galwedigaethol, orthoptwyr, parafeddygon, ffisiotherapyddion, prosthetyddion, seicolegwyr, ffisiotherapyddion, radiograffyddion, a therapyddion lleferydd ac iaith ymysg eraill.

## **Gwella 1000 o Fywydau**

Gwella 1000 o Fywydau yw'r rhaglen wella genedlaethol sy'n cefnogi sefydliadau ac unigolion i gyflwyno'r gofal iechyd o ansawdd uchaf a mwyaf diogel ar gyfer pobl Cymru.

## **Gwneud Dewisiadau Gyda'n Gilydd**

Mae Gwneud Dewisiadau Gyda'n Gilydd yn fudiad sy'n cael ei arwain gan 1000 o Fywydau sydd yn annog cleifion i gael sgysiau agored gyda meddygon am eu gofal ac sydd yn annog gwneud penderfyniadau cydgysylltiedig.

## **H**

### **Horizon 2020**

Horizon 2020 yw rhaglen Ymchwil ac Arloesi fwyaf yr UE. Mae sefydliadau Cymru wedi sicrhau dros €83m o gyllid Horizon 2020 ers dechrau'r rhaglen yn 2014.

### **Hunan-gymorth (neu Hunan-reolaeth)**

Mae hunangymorth/rheolaeth yn cynnwys y camau y mae unigolion a gofalwyr yn eu cymryd dros eu hunain, eu plant, eu teuluoedd ac eraill i gadw'n iach a chynnal iechyd corfforol a meddyliol da; bodloni anghenion cymdeithasol a seicolegol; atal salwch neu ddamweiniau; gofal am fân gyflyrau a chyflyrau hirdymor; a chynnal iechyd a llesiant ar ôl salwch aciwt neu ryddhau o'r ysbyty.

### **Hunan-ofal**

Mae hunanofal yn cyfeirio at unigolion sydd yn cymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u llesiant eu hunain a thros ofalu amdanynt eu hunain. Mae hyn yn cynnwys gwneud ymarfer corff, bwyta'n dda, cymryd camau i atal salwch a damweiniau, defnydd gwell o feddyginiaethau, trin mân gyflyrau, a gofalu am gyflyrau hirdymor yn well.

## Iechyd a Gofal Gwledig Cymru (IGGC)

Mae IGGC yn sefydliad o ragoriaeth sydd yn arwain y ffordd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol gwledig yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol. Cafodd RHCW ei ffurfio a chaiff ei gefnogi gan BIP Hywel Dda, BIP Betsi Cadwaladr, BAI Powys ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Mae IGGC yn gweithio mewn cydweithrediad â Phrifysgolion Aberystwyth, Bangor, Caerdydd, Abertawe, y Drindod Dewi Sant a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ynghyd ag Awdurdodau Lleol Ceredigion, Powys a Gwynedd.

## Iechyd y Boblogaeth

Diffinnir iechyd y boblogaeth fel canlyniadau iechyd grŵp o unigolion a dosbarthiad canlyniadau o'r fath yn y grŵp. Mae tegwch iechyd - gwahaniaethau y gellir eu hosgoi rhwng rhannau gwahanol o'r boblogaeth - yn rhan greiddiol o ddeall iechyd poblogaeth.

## Iechyd y Cyhoedd

Mae iechyd y cyhoedd yn ymwneud â gwella iechyd y boblogaeth yn hytrach na thrin clefydau cleifion unigol.

## LI

### Llwybr Gofal

Er mwyn gwella natur canolbwyntio ar y person yn ymwneud â gofal, mae comisiynwyr a chynllunwyr gwasanaeth yn ceisio deall sut mae cleifion yn profi gofal o ataliaeth, i ddiagnosis ac asesiad, i driniaeth a lle y bo'n briodol, gofal lliniarol. Mae hyn fel arfer yn cynnwys mapio'r daith a'r profiad gan ddefnyddio ystod o dechnegau gyda chleifion, meddygon a rheolwyr. Caiff y daith hon ei disgrifio fel llwybr gofal. Nod cynllunwyr gwasanaeth yw gwella llif cleifion ar hyd y llwybr hwn trwy leihau aneffeithlonrwydd a gwella dibynadwyedd.

## Llwybrau

Llwybr claf yw'r llwybr y bydd claf yn ei gymryd o'u cyswllt cyntaf ag aelod o staff y GIG (eu meddyg teulu fel arfer), i atgyfeirio, i gwblhau eu triniaeth. Mae hefyd yn cynnwys y cyfnod o dderbyn i'r ysbyty neu ganolfan driniaeth nes bod y claf yn gadael.

## Llwybrau Clinigol

Mae llwybrau clinigol yn gynlluniau rheoli amlddisgyblaethol, wedi eu safoni, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sydd yn nodi trefn briodol o ymyriadau clinigol, graddfeydd amser, cerrig milltir a chanlyniadau disgwylidig ar gyfer grŵp homogenaidd o gleifion.

## Llywodraethu Clinigol

Gellir diffinio llywodraethu clinigol fel fframwaith y mae sefydliadau'r GIG yn atebol am wella ansawdd eu gwasanaethau yn barhaus a diogelu safonau gofal uchel drwyddo, trwy greu amgylchedd lle bydd rhagoriaeth o ran gofal clinigol yn ffynnu.

## Llywodraethu Gwybodaeth (LIG)

Mae LIG yn sicrhau'r diogelwch angenrheidiol ar gyfer, a defnydd priodol o wybodaeth cleifion a phersonol. Y prif feysydd yw polisi gwybodaeth ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, safonau LIG ar gyfer systemau a datblygiad canllawiau ar gyfer y GIG a sefydliadau partner.

## M

### Mapio Proses

Mapio proses yw nodi taith claf er mwyn nodi manau o aneffeithlonrwydd a/neu gyfleoedd ar gyfer gwella.

## Meddygon

Mae meddyg yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol sydd yn gweithio fel rhoddwr gofal sylfaenol mewn ysbyty, cyfleuster nyrsgo sgil uchel, clinig, neu gartref cleifion. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol, deietegwyr, ffisiotherapyddion, maethegwyr, therapyddion galwedigaethol, podiatregwyr a cheiropractyddion ymysg eraill.

## Meddygon Iau

Mae meddygon iau yn ymarferwyr meddygol cymwys sydd yn gweithio tra'n gwneud hyfforddiant ôlraddedig er mwyn bod yn ymgynghorydd, arbenigwr cyswllt, meddyg teulu neu wneud meddygaeth academaidd.

## Model Gofal

Model gofal yw'r dyluniad trosfwaol ar gyfer darparu math penodol o wasanaeth gofal iechyd sy'n cael ei lunio gan sail ddamcaniaethol, ymarfer yn seiliedig ar dystiolaeth a safonau wedi eu diffinio sy'n diffinio'n fras y ffordd y caiff gwasanaethau iechyd eu cyflwyno.

## Mynegai Marwolaethau Wedi'u Haddasu yn Ôl Risg (MMHR)

Mae MMHR yn fynegai marwolaethau yn seiliedig ar gymhareb o nifer o farwolaethau a arsylwyd i nifer ddisgwylidig o farwolaethau mewn poblogaeth benodol. Bwriad yr elfen 'wedi ei addasu yn ôl risg' MMHR yw caniatáu cymariaethau rhwng ysbytai sy'n darparu gofal cymhleth, risg uchel ac ysbytai llai sy'n darparu gwasanaethau risg is.

## N

### Nod Pedwarplyg

Mae'r 'nod pedwarplyg', fel Adolygiad Seneddol Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, yn cyfeirio at y pedwar nod i gyflawni gwasanaeth iechyd effeithiol a chynaliadwy i'r dyfodol. Y pedwar nod yw; gwella iechyd a lles y boblogaeth trwy ganolbwyntio ar ataliaeth; gwella profiad ac ansawdd gofal i deuluoedd ac unigolion; cyfoethogi llesiant, galluogrwydd ac ymgysylltu'r gweithlu iechyd; a chynyddu'r gwerth a gyflawnwyd trwy ariannu iechyd trwy wella, arloesi, defnyddio arfer gorau a dileu gwastraff.

## O

### Oedi wrth Drosglwyddo Gofal

Mae oedi wrth drosglwyddo gofal yn digwydd pan fydd claf yn barod i ddychwelyd adref neu gael ei drosglwyddo i fath arall o ofal ond mae'n dal yn meddiannu gwely ysbyty am nad oes lleoliad priodol ar gyfer ei drosglwyddo, fel cartref gofal, ar gael.

### Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol ar holl gyrff y llywodraeth ac mae ganddo bwerau cyfreithiol i edrych ar gŵynion am y gwasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys y GIG, a darparwyr gofal annibynnol yng Nghymru.

## P

### Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC)

Mae PCGC yn sefydliad annibynnol, sydd yn berchen i ac yn cael ei gyfarwyddo gan GIG Cymru. Mae PCGC yn cefnogi GIG Cymru trwy ddarparu ystod gynhwysfawr o swyddogaethau a gwasanaethau o ansawdd uchel, sydd yn canolbwyntio ar y cwsmer e.e. cyflogaeth (recrwtio, cyflogres a phensiynau) a gwasanaethau caffael.

## **Penderfyniad Ymlaen Llaw**

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn rhoi hawl statudol i bobl yng Nghymru a Lloegr wrthod triniaeth, trwy 'benderfyniad ymlaen llaw'. Mae penderfyniad ymlaen llaw yn galluogi person i ddatgan pa fathau o driniaeth y byddent neu na fyddent yn dymuno os na fyddant yn gallu penderfynu drostynt eu hunain. Mae'n benderfyniad rhwymol.

## **Personoli (iechyd a gofal cymdeithasol)**

Personoli yw'r term hollgynhwysol i roi mwy o ddewis i bobl am y gofal y maent yn ei gael. Mae'r system yn gwneud defnyddiwr y gwasanaeth yn ganolog i'r broses ac yn eu galluogi i ddewis yr asiantaethau y maent yn eu defnyddio a'r ffordd y maent yn cael cymorth.

## **Profiad y Claf**

Mae profiad y claf yn golygu gwneud y claf a'u profiad yn ganolog i wella ansawdd. Mae profiad y claf yn canolbwyntio ar y mesurau a'r elfennau sydd yn bwysig i'r claf, fel: parch tuag at werthoedd sy'n canolbwyntio ar y claf, hoffterau, ac anghenion a fynegir; cyfathrebu, cysur corfforol; a pharhad gofal.

## **Proses Cynllunio Integredig Tymor Canolig (PCITC)**

Cyfeiriodd Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 a Fframwaith cysylltiedig Cynllunio GIG Cymru at ymagwedd tymor canolig newydd ar gyfer cynllunio, sydd yn gofyn i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau greu IMTP, yn nodi sut y caiff adnoddau eu defnyddio dros gyfnod o dair blynedd i wella canlyniadau iechyd, ansawdd gofal a sicrhau gwerth gorau o adnoddau.

## **R**

### **Rhagfynegiadau Poblogaeth**

Mae rhagfynegiadau poblogaeth yn rhoi amcangyfrif o faint poblogaeth yn y dyfodol ac maent yn seiliedig ar honiadau am enedigaethau, marwolaethau a mudo. Mae'r honiadau yn seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol ac ond yn dangos beth allai ddigwydd pe byddai'r tueddiadau diweddar yn parhau.

### **Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal wedi'i Gynllunio**

Sefydlwyd y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal wedi'i Gynllunio yn 2014 gyda'r nod o ddiwygio a gwella arbenigeddau gofal wedi'u cynllunio y GIG. Mae'r rhaglen yn defnyddio arbenigedd meddygon yng Nghymru i nodi a hybu arfer gorau. Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae'r rhaglen wedi canolbwyntio ar offthalmoleg, orthopedeg, y glust y trwyn a'r gwddf ac wroleg.

### **Rhaglen Gydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth (MWHC)**

Sefydlwyd yr MWHC yn 2015 mewn ymateb i Astudiaeth Gofal Iechyd Canolbarth Cymru gyda'r nod o sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd yn y Canolbarth yn effeithiol ar gyfer ei boblogaeth. Yn 2017, olynwyd yr MWHC gan Gyd-bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Canolbarth. Mae'r aelodau yn cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Betsi Cadwaladr, BIP Hywel Dda, Bwrdd Addysgu Iechyd (BAI) Powys, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Powys.

### **Rhaglen Wella Genedlaethol**

Mae'r Rhaglen Wella Genedlaethol yn nodi'r camau ar y cyd i'w cymryd gan Grwpiau Cymheiriaid Gweithredol. Ei brif nod yw ysgogi gwelliant ariannol cynyddrannol a gwella perfformiad gwasanaethau.



## Rhagnodi Cymdeithasol

Mae rhagnodi cymdeithasol yn ffordd o atgyfeirio cleifion i ystod o wasanaethau anghlinigol lleol, sydd fel arfer yn cael eu cynllunio a'u cyflwyno gan sefydliadau'r sector gwirfoddol a chymunedol.

## Rhanddeiliaid

Mae gan y GIG ystod eang o randdeiliaid sydd i gyd yn rhannu budd o'i waith, yn cynnwys cleifion a'r cyhoedd, Awdurdodau Lleol a darparwyr gofal cymdeithasol, elusennau, a'r sectorau preifat, gwirfoddol a chymunedol.

## Rheolaeth Cyflwr Hirdymor

Rheolaeth cyflwr hirdymor yw rheolaeth cleifion â sawl clefyd a chyflwr niwrolegol sydd angen triniaeth ddyddiol o ddydd i ddydd.

## Rheoli Achosion

Rheoli achosion yw'r broses o gynllunio, cydlynu, rheoli ac adolygu gofal unigolyn.

## Rhwydweithiau Clinigol

Mae Rhwydweithiau Clinigol yn grwpiau o weithwyr iechyd proffesiynol o ofal sylfaenol, eilaidd a thrydyddol, yn gweithio mewn ffordd gydgyssylltiedig, heb ei chyfyngu gan ffiniau proffesiynol presennol a Byrddau Iechyd Lleol, er mwyn sicrhau darpariaeth deg o wasanaethau o ansawdd uchel sydd yn effeithiol yn glinigol.

## Rhwydweithiau Clwstwr

Mae Rhwydwaith Clwstwr yn grŵp o wasanaethau gofal sylfaenol a bennir yn lleol gan Fwrdd Iechyd unigol. Mae meddygon teulu yn y clystyrau yn chwarae rôl allweddol yn cefnogi gwaith parhaus Rhwydwaith Lleoliad. Mae Rhwydwaith Lleoliad yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio'r ymagwedd gydweithredol hon. Ceir 64 o Glystyrau sydd wedi cael eu nodi ar hyd a lled Cymru.

## Rhyddhau

Rhyddhau o'r ysbyty yw'r pwynt pan fydd claf yn gadael yr ysbyty a naill ai'n dychwelyd adref neu'n cael ei drosglwyddo i gyfleuster arall fel un ar gyfer adsefydlu neu i gartref nyrsio.

## Rhyddid Gwybodaeth

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn Ddeddf Seneddol yn y Deyrnas Unedig sydd yn creu "hawl mynediad" cyhoeddus i wybodaeth sydd gan awdurdodau lleol, yn cynnwys y GIG.

## S

## Safonau Iechyd a Gofal

Y Safonau Iechyd a Gofal a nodir yn fframwaith cyffredinol Llywodraeth Cymru o safonau i gefnogi'r GIG a sefydliadau partner i ddarparu gwasanaethau effeithiol, amserol o ansawdd ar draws pob lleoliad gofal iechyd. Maent yn nodi'r hyn y gall pobl Cymru ei ddisgwyl pan fyddant yn defnyddio gwasanaethau iechyd a pha ran y gallant ei chwarae yn hybu eu hiechyd a'u lles eu hunain. Maent yn nodi disgwyliadau ar gyfer gwasanaethau a sefydliadau ac a ydynt yn darparu neu'n comisiynu gwasanaethau ar gyfer eu dinasyddion lleol.

## **Salwch cronig**

Clefyd, cyflwr neu broblem iechyd sy'n parhau dros gyfnod hir o amser. Mae enghreifftiau'n cynnwys arthritis, diabetes, pwysedd gwaed uchel a chlefyd pwlmonaidd rhwystrol cronig (CPRC).

## **Sector Annibynnol**

Mae'r sector annibynnol yn derm mantell ar gyfer pob corff nad yw'n rhan o'r GIG sy'n cyflwyno gofal iechyd, yn cynnwys ystod eang o gwmnïau preifat a sefydliadau gwirfoddol.

## **Sector Gwirfoddol a Chymunedol**

Mae'r sector gwirfoddol a chymunedol yn derm mantell sy'n cyfeirio at elusennau cofrestredig yn ogystal â sefydliadau di-elw, nad ydynt yn elusennol, cymdeithasau, grwpiau hunan-gymorth a grwpiau cymunedol, er budd y cyhoedd neu'r gymuned

## **Sector Preifat**

Y sector preifat yw'r rhan o'r gweithlu cenedlaethol a'r economi nad yw o dan reolaeth uniongyrchol y wladwriaeth. Nid yw sefydliadau'r sector preifat yn cael cymorth na chefnogaeth o unrhyw fath gan lywodraeth ganolog. Mewn gofal iechyd, mae'r sector preifat yn cynnwys ysbytai a chlinigau sy'n gweithredu'n annibynnol ar y GIG.

## **Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (SCIRG)**

Mae SCIRG yn sefydliad annibynnol sy'n rhoi canllawiau cenedlaethol ar hybu iechyd da ac atal a thrin salwch. Ei nod yw nodi safonau cenedlaethol clir ynghylch yr hyn y gall cleifion ddisgwyl ei dderbyn gan y GIG. Mae'n hybu effeithiolrwydd clinigol a chost trwy ganllawiau ac archwiliad i gefnogi staff rheng flaen. Mae'r ffordd y cafodd SCIRG ei sefydlu mewn deddfwriaeth yn golygu bod ei ganllawiau yn rhai Lloegr yn unig. Fodd bynnag, mae ganddo gytundebau i ddarparu rhai cynnyrch a gwasanaethau i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

## **Sgiliau ar gyfer Iechyd**

Mae Sgiliau ar gyfer Iechyd yn gweithredu yn y gweithlu a'r sector datblygu sefydliadol. Maent yn darparu atebion gweithlu wedi eu dylunio i wella gofal iechyd, gwella ansawdd a gwella cynhyrchiant a pherfformiad ariannol. Maent yn sefydliad dielw ar gyfer sector iechyd y DU gyfan.

## **Swyddfa Archwilio Cymru**

Prif amcan Swyddfa Archwilio Cymru yw cefnogi'r Archwiliwr Cyffredinol fel corff gwarchod y sector cyhoeddus ar gyfer Cymru. Eu nod yw sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n ddoeth a bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru'n deall sut i wella canlyniadau.

## **System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (SWGCC)**

Mae Awdurdodau Lleol a sefydliadau GIG Cymru yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn cael ateb electronig - SWGCC – fydd yn galluogi gwybodaeth i gael ei rhannu'n ddiogel ac yn helpu i gyflwyno gofal a chymorth gwell ar gyfer pobl ar draws Cymru.

## T

### **Taliadau Uniongyrchol (Gofal Cymdeithasol)**

Mae taliadau uniongyrchol yn daliadau arian parod y gall Awdurdodau Lleol eu gwneud i unigolion er mwyn iddynt allu trefnu eu gwasanaethau eu hunain i fodloni eu hanghenion gofal cymdeithasol. Mae taliadau uniongyrchol yn cynnig dewis amgen i'r Awdurdod Lleol sydd yn trefnu gwasanaethau gofal cymunedol ar eu rhan.

### **Technoleg Gynorthwyol a Theleofal**

Mae technoleg gynorthwyol a theleofal yn cyfeirio at unrhyw gynnyrch neu wasanaeth a ddyluniwyd i alluogi cleifion i gael mwy o annibyniaeth a gwella ansawdd eu bywyd. Gall y dyfeisiadau gynnwys cyfuniad o larymau, systemau mynediad drysau, larymau cymunedol, offer cyfathrebu personol, cymhorthion cerdded, synwryddion ac offer eraill sy'n cael eu gosod yng nghartref person.

### **Telehyfforddi**

Mae telehyfforddi yn cynnig ystod o ddulliau cymorth (yn aml wedi eu cyflwyno ar-lein a/ neu dros y ffôn) gan alluogi meddygon i gefnogi a grymuso cleifion yn ymwneud â'u hunanreolaeth a'u hunanofal eu hunain.

### **Teleofal**

Mae teleofal yn cynnig ystod o opsiynau gofal o bell trwy ffonau, ffonau symudol a band eang, yn aml yn cynnwys fideo-gynadledda. Pan gaiff ei ddefnyddio'n effeithiol, gall wella profiad claf o ofal trwy leihau'r angen i deithio i ddinasoedd ac ysbytai mawr i gael gofal a thriniaeth.

### **Tîm Gofal Integredig**

Mae Tîmau Gofal Integredig yn rhoi gwasanaeth o ansawdd gwell i gleifion, a mynediad haws i wasanaethau gofynnol, trwy weithio'n gydweithredol tuag at yr un canlyniad.

### **Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol**

Mae tîmau iechyd meddwl cymunedol yn grŵp o bobl o broffesiynau iechyd a gofal cymdeithasol sydd yn gweithio yn y gymuned i helpu pobl i wella ar ôl, ac ymdopi â, chyflyrau iechyd meddwl.

### **Tîmau Adnoddau Cymunedol (TAC)**

Mae TAC yn rhan o raglen strategol ehangach i gyflwyno gofal integredig gwell i bobl yn agosach at eu cartrefi yn eu cymunedau. Mae gwasanaethau TAC yn cefnogi pobl ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol lluosog sydd mewn perygl o gael eu derbyn i'r ysbyty, gyda'r nod o wella neu adfer ansawdd bywyd a hyder ar gyfer pobl ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth, a lleihau derbyniadau i'r ysbyty y gellir eu hosgoi.

### **Tîmau Amlddisgyblaethol (TADd)**

Mae TADd yn cynnwys gweithwyr proffesiynol o ddisgyblaethau amrywiol sydd yn dod ynghyd i ddarparu asesiad a rheolaeth gynhwysfawr.

### **Trosglwyddo Acíwt ar gyfer Plant Cymru a Gorllewin Lloegr (TAPCGLI)**

Mae TAPCGLI yn dîm a gomisiynir ar y cyd sy'n gyfrifol am drosglwyddo plant sy'n ddifrifol wael ar draws De Ddwyrain Lloegr a De Cymru. Mae'r tîm yn cydlynu ac yn trosglwyddo plant i ddwy uned gofal dwys pediatriig rhanbarthol (PICU) ym Mryste a Chaerdydd.

## Trydydd sector

Mae'r trydydd sector yn cwmpasu'r ystod lawn o sefydliadau di-elw nad ydynt yn rhai'r llywodraeth ac sy'n cael eu 'llywio gan werth'; hynny yw, yn cael eu hysgogi gan y dymuniad i ddatblygu amcanion cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol yn hytrach na gwneud elw.

## U

### Undebau Llafur a Chyrff Proffesiynol

Mae Undeb Llafur a chorff proffesiynol yn gymdeithas o weithwyr proffesiynol mewn sector a ffurfiwyd i ddiogelu a datblygu eu hawliau a'u buddion e.e. Unite, Unsain a Cholegau Brenhinol.

### Uned Asesu Brys (UAB)

Mewn EMU, caiff claf ei asesu gan aelod naill ai o'r tîm meddygol, llawfeddygol neu orthopedig. Os oes angen, gellir trosglwyddo claf i ward arall.

### Uned Feddygol Acíwt (UFA)

UFA yw'r pwynt mynediad cyntaf ar gyfer cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio i'r ysbyty fel achosion brys gan eu meddyg teulu a'r rheiny sydd angen cael eu derbyn o'r Adran Frys.

### Uned Gofal Dwys / Therapi

Mae uned gofal dwys ar gyfer pobl y mae eu cyflyrau yn golygu bod eu bywyd yn y fantol ac sydd angen cymorth a monitro agos, parhaus gan offer a meddyginiaeth i gynnal swyddogaeth arferol y corff.

## Unedau 'Eiddilwch'

Mae unedau eiddilwch, o dan arweiniad tîm meddygol geriatrig, yn canolbwyntio ar anghenion cleifion hŷn â chyflyrau eiddilwch, yn cynnwys dementia.

## Unedau Mân Anafiadau

Defnyddir unedau mân anafiadau ar gyfer anafiadau llai difrifol, fel trychiadau dwfn, anafiadau i'r llygaid, toresgyrn, sigiadau difrifol, mân anafiadau i'r pen, mân losgiadau a sgaldiau.

## W

### Wardiau Rhithwir

Mae'r Ward Rithwir yn darparu gwasanaeth cymunedol gan ddefnyddio systemau, prosesau a staffio yn debyg i ward ysbyty ond heb yr adeilad ffisegol. Mae Wardiau Rhithwir yn darparu gofal amlddisgyblaethol i gleifion â risg uchel o gael eu derbyn i'r ysbyty heb fod hyn wedi ei drefnu, yn seiliedig ar ragolygon model risg rhagfynegol. Gan ddefnyddio staff, systemau ac arferion dyddiol ward ysbyty gyda gweithiwr cymdeithasol fel aelod allweddol o'r tîm, maent yn cyflwyno gofal ataliol wedi ei gydlyn yn y cartref i bobl y rhagfynetir bod eu risg yn uchel.

## Y

### Ychwanegu at Fwyd

Mae 'Ychwanegu at Fwyd' yn wiriad iechyd ar -lein, sy'n rhoi asesiad a chymorth yn y gymuned i alluogi pobl dros 50 oed i asesu a gwella eu hiechyd eu hunain

### Ymarferydd Nyrsio Uwch (YNU)

Mae rôl yr YNU yn cynnwys asesu'r claf, rhoi diagnosis gwahaniaethol a threfnu ymchwiliadau perthnasol, darparu triniaeth (yn cynnwys rhagnodi) a derbyn/rhyddhau cleifion.

## **Ymddiriedolaethau**

Mae tair Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru gyda ffocws Cymru gyfan. Y rhain yw Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Canolfan Ganser Felindre ac Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## **Ymgysylltu Clinigol**

Ymgysylltu clinigol yw cyfranogiad meddygon wrth wneud penderfyniadau am ofal cleifion. Fel wyneb cyhoeddus y sefydliad a grŵp gyda mewnwleidiad unigryw i anghenion cleifion, mae mewnbwn meddygon yn hanfodol i ddod o hyd i atebion i broblemau clinigol ac i arwain newid. Mae newid i wasanaeth a gyflwynir heb ymgysylltu clinigol yn debygol o wynebu gwrthwynebiad a methu.

## **Ymgysylltu'r Cyhoedd a Chleifion**

Mae ymgysylltu'r cyhoedd a chleifion yn cyfeirio at y broses o ymgysylltu'r cyhoedd a chleifion ar lefel unigol ac ar y cyd trwy gynllunio a dylunio gwasanaethau i greu gwasanaethau lleol, personol ac effeithiol. Mae'r broses yn symud o wybodaeth, i adborth, i ddylanwad a gellir ei wneud ar bob cam o'r cylch: asesu anghenion, penderfyniadau am flaenoriaethau a strategaethau, gwella gwasanaeth, caffaeliad a chontractio a monitro a rheoli perfformiad.

## **Ymyrraeth Gynnar**

Mae gwasanaethau ymyrraeth gynnar yn darparu triniaeth a chymorth i bobl sydd yn profi symptomau cynnar salwch. Y nod yw rhoi cymorth lefel isel i atal y person rhag datblygu anghenion mwy aciwt yn nes ymlaen.

## **Ysgrifennydd y Bwrdd**

Fel rhan o ddiwygio'r GIG yn 2009, mae'n ofynnol ar Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG gael Ysgrifennyddion Bwrdd. Mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn gweithredu fel gwarcheidwad llywodraethu da. Mae'r rôl yn cynnwys rhoi cyngor i'r Bwrdd ar bob agwedd ar lywodraethu; hwyluso ymddygiad effeithiol busnes y Bwrdd Iechyd trwy ei gyfarfodydd, grwpiau cynghori a phwyllgorau; sicrhau bod gan aelodau'r Bwrdd y wybodaeth gywir i'w galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus a monitro a yw'r Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â'r gyfraith, Archebion Sefydlog a'r fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd a nodir gan Lywodraeth Cymru.

## **Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Penodir Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon yn flaenorol) gan Lywodraeth Cymru ac mae'n gyfrifol am gyflwyniadau a pherfformiad y GIG, ymchwil a datblygu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a phob agwedd ar iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn gyfrifol am gyflwyno mesurau canlyniad newydd ac mae'n goruchwyllo gweithgareddau Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwneud â'r GIG. Vaughan Gething AC sydd yn gwneud y swydd ar hyn o bryd.

## Sut gall Conffederasiwn GIG Cymru eich helpu chi?

Cysylltwch os hoffech fwy o wybodaeth am y termau a geir yn yr eirfa hon.

Cysylltwch â **Nesta Lloyd-Jones**, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus:

nesta.lloyd-jones@welshconfed.org neu 02920 349 857.

Conffederasiwn GIG Cymru yw'r unig gorff aelodaeth sydd yn cynrychioli'r holl sefydliadau sy'n ffurfio'r GIG yng Nghymru: y saith Bwrdd Iechyd Lleol a'r tair Ymddiriedolaeth GIG.

Ewch i'n gwefan yn **www.welshconfed.org** a dilynwch ni yn  **@WelshConfed**.

Rhif elusen gofrestredig: 1090329

## Map o'r GIG yng Nghymru

Mae saith Bwrdd Iechyd yng Nghymru sy'n gyfrifol am gynllunio a chyflwyno gwasanaethau gofal iechyd mewn ardal ddaearyddol. Y saith Bwrdd Iechyd yw:

1. Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Abertawe Bro Morgannwg

2. Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan

3. Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Betsi Cadwaladr

4. Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Caerdydd a'r Fro

5. Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Cwm Taf

6. Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Hywel Dda

7. Bwrdd Addysgu Iechyd  
Powys



Mae tair Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru gyda ffocws Cymru gyfan:

- **Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru** sy'n darparu gwasanaethau brys;
- **Ymddiriedolaeth GIG Felindre**, sy'n darparu gwasanaethau arbenigol mewn gofal cancer ac ystod o wasanaethau cymorth cenedlaethol; ac
- **Iechyd Cyhoeddus Cymru**, sy'n darparu arweinyddiaeth genedlaethol ar faterion iechyd y cyhoedd.